# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mawrth 3ydd 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Bro Derfel.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Eifion Davies, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Maldwyn Jones a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Rita Jones, Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Iolo Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Chwefror 3ydd 2026) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **nodwyd y buddiant ger y ceisiadau ariannol perthnasol.**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf – **Nodwyd.**

<u>b) Lloches bws newydd i Lanfor.</u>
**Roedd y cadeirydd a'r clerc wedi cwrdd a swyddogion yr Asiantaeth Cefnffyrdd ac wedi cael cyngor lle dylai'r lloches newydd gael ei osod. Gofynnwyd i'r clerc cysylltu â Llywodraeth Cymru i gael caniatad ysgrifenedig, Cyngor Gwynedd ynglŷn a'r hawl cynllunio a'r cwmniau llochesi i ofyn am brisiau i osod y sylfaen,**

<u>v) Gohebiaeth</u>
<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned Gwynedd 2026. **Trafodwyd syniadau a byddai'n bosib ceisio arian am a gofynnwyd i'r clerc anfon at bwyllgorau'r neuaddau lleol yn gofyn am eu mewnbwn.**
ii) Holiadur Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.
iii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd – Mawrth 2026.

<u>b) Cyfoeth Naturiol Cymru.</u>
i) Canolfan Tryweryn – Cyfle Datblygu.

<u>c) Ymgyrch Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg.</u>
i) Polisi'r Arolwg Ordnans ar eu defnydd o enwau lleoedd ar eu mapiau o Gymru. **Cytunwyd i gefnogi eu cais i ysgrifennu at Arolwg Ordnans yn gofyn iddynt newid eu polisi a pheidio gosod enwau Saesneg yn unig ar leoedd sydd ag enwau Cymraeg hanesyddol,**

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

<u>vii) Materion Ariannol.</u>
a)<u> Archwilio Cymru – Cwblhau archwiliad 2024-25.</u>
**Derbyniwyd yr Adroddiad yn nôl gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir a bod dim materion yn achosi pryder iddynt. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.**

<u>b) Penodi Archwiliwr Mewnol.</u>
**Cytunwyd i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon eto eleni.**

<u>c) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27.</u>
**i) Nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y gydnabyddiaeth ddewisol a chytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-gadeirydd ac nid oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb wrth fynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y gydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau**

**ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.**

ch) Taliadau.

**Cymeradwywyd y taliadau - Cyflog a chostau'r Clerc (Ionawr i Fawrth), CTHEM (TWE), Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth), Neuadd Sarnau (Llogi), Neuadd Mynach (Llogi), Neuadd Bro Derfel, Cwmni Pum Plwy Penllyn (cyfraniad tuag at gostau torrri llwybrau troed) ac Eilir Jones Evans, (gwaith cynnal a chadw lloches bws Llanfor. Cymeradwyd hefyd i'r clerc dalu am y batris i difib Llandderfel ac Archwilio Cymru pan dderbynir yr anfoneb.**

d) Ceisiadau ariannol.

**Cytunwyd i gyfrannau:-**
**1) Neuadd Mynach - £450 (Bethan Thomas yn datgan buddiant)**
**2) Neuadd Sarnau - £450 (Eifion Davies yn datgan buddiant)**
**3) Neuadd Bro Derfel - £450.**
**4) Ysgol Bro Tryweryn - £300 (Eifion Davies yn datgan buddiant)**
**5) Ysgol Ffridd Y Llyn - £300 (Eifion Davies yn datgan buddiant)**
**6) Ysgol Godre'r Berwyn - £100**
**7) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn - £100**
**8) Hosbis Tŷ Gobaith - £50**
**9) Hosbis Tŷ'r Eos - £50**
**10) CFFI Meirionnydd - £200**

**11) Cantref - £100**
**12) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100**
**13) Ambiwlans Awyr Cymru -£100**
**14) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100**
**15) Urdd Cylch Meirionnydd - £100**
**16) Macmillan - £50**
**17) Marie Curie Gwynedd - £50**
**18) Neuadd Bro Derfel – toiledau cyhoeddus - £50**
**19) Cwmni Pum Plwy Penllyn – Y Cyfnod - £50**
**20) Ronald McDonald House - £50**
**21) Llen y Llannau - £50**

## viii) Materion lleol.

a) Pryderon lleol am orffeniad gwaith adeiladu gorlifan atodol newydd yn Llyn Celyn

**b) Cytunwyd i anfon y cwynion a dderbyniwyd i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MAI 5ED YN NEUADD BRO DERFEL.**